



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

Private & Confidential

By Email Only:

Ein cyf / Our ref:

E-bost/Email:

AllWales.Alerts@wales.nhs.uk

Dyddiad / Date: 22nd December 2020

**NHS Alert / Welsh Government – (Welsh Health Circular) WHC 2020 024 (Updated)
(Clinical Assessment of COVID-19 in the Community - Update December 2020)**

This alert has been cascaded to the following:

**All Wales GP Practice Managers
All Wales GP OOHs
All Wales Sessional GPs
All Wales HB Primary Care Managers
All Wales Medical Committees**

WELSH HEALTH CIRCULAR



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Issue Date: 22 December 2020

STATUS: ACTION

CATEGORY: HEALTH PROFESSIONAL LETTER

Title: Clinical Assessment of COVID-19 in the Community (Updated)

Date of Expiry / Review: N/A

For Action by:

GP Senior Partners and Practice
Managers

GP Out of Hours

111

WAST ambulatory teams

Action required by: December 2020

Sender: Dr Frank Atherton, Chief Medical Officer / Medical Director NHS Wales

HSSG Welsh Government Contact(s):

Value Based Healthcare Policy, Population Healthcare Division, Welsh Government

PopulationHealthcare@gov.wales

Enclosure(s): None

Dear colleagues

CLINICAL ASSESSMENT OF COVID-19 IN THE COMMUNITY – UPDATE DECEMBER 2020

The Welsh Government issued a Community Framework for the Management of COVID-19 in March 2020 and an update in June 2020. The Framework has now been reviewed and replaced with a national Guideline. This reflects lessons learned over the course of the pandemic and new opportunities for models of delivery. Key developments in the latest guidance include:

- The widespread use of COVID-19 community testing, meaning that primary care clinicians are seeing more patients with proven diagnosis.
- The ability to segment patients with proven or suspected COVID-19 into three risk categories with separate recommended actions.
- The potential to use pulse oximetry to support self-monitoring at home for patients at moderate risk of complications.
- The availability of clear thresholds for admission or staying at home with safety-netting advice.
- The potential for delivering point of care testing in the community for COVID-19 prior to admission in order to stream patients and reduce the risk of transmission.

The Guideline has been produced through the collaborative working of clinicians in primary care and community services, including respiratory nurses, palliative care and respiratory medicine. I am pleased to offer my support for the updated and expanded Guideline ([hyperlinked](#)):

[The All Wales Guideline for the Management of patients with confirmed or suspected COVID-19 in the Community during winter 2020/21](#)

I would also like to thank all of the people who have worked together to develop this latest version. The Guideline will help clinicians, nurses, paramedics and other healthcare professionals to determine which patients should be managed at home with specific safety-netting advice and which patients should be admitted to hospital.

The Guideline is supported by an ethical framework and advice on advance care planning and palliative care in the community.

The Guideline is delivered on a new digital platform and provides educational material and training videos to support your team. Once registered with the website, users can be updated by email whenever the guidance is updated or new education material is uploaded.

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2020

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Asesiad Clinigol o COVID-19 yn y Gymuned (diweddariad)

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad: Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Uwch Partneriaid a Rheolwyr Practisau
Meddygon Teulu
Gwasanaeth y tu allan i oriau Meddygon
Teulu
111
Timau triniaeth ddydd Ymddiriedolaeth
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Angen gweithredu erbyn: Rhagfyr 2020

Anfonwr: Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG
Cymru

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru : Polisi Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth,
Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau, Llywodraeth Cymru
PopulationHealthcare@llyw.cymru

Dogfennau amgaeedig: Dim

Annwyl Gyfeillion

ASESIAD CLINIGOL O COVID-19 YN Y GYMUNED – DIWEDDARIAD RHAGFYR 2020

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cymunedol ar gyfer Rheoli COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ac wedyn ddiweddariad ym mis Mehefin 2020. Bellach, mae'r Fframwaith wedi cael ei adolygu a'i ddisodli gan Ganllaw cenedlaethol sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod cwrs y pandemig, ynghyd â chyfleoedd newydd ar gyfer modelau cyflawni. Mae'r datblygiadau allweddol yn y Canllaw diweddaraf yn cynnwys:

- Defnyddio profion COVID-19 yn helaeth yn y gymuned, sy'n golygu bod clinigwyr gofal sylfaenol yn gweld mwy o gleifion sydd wedi cael diagnosis a gadarnhawyd gan brawf.
- Y gallu i rannu cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19, yn dri chategori risg yr argymhellir cymryd camau gweithredu gwahanol mewn perthynas â nhw.
- Y posibilrwydd o ddefnyddio ocsimetreg pwls i helpu cleifion, y mae risg gymedrol y gallant ddioddef cymhlethdodau, i fonitro eu hunain gartref.
- Darparu trothwyon clir ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty neu benderfynu y dylent aros gartref gyda chyngor i sicrhau eu diogelwch.
- Y posibilrwydd o ddarparu profion pwynt gofal ar gyfer COVID-19 yn y gymuned cyn derbyn claf i'r ysbyty, er mwyn ffrydio cleifion a lleihau'r perygl o drosgwyddo'r feirws.

Cafodd y Canllaw ei gynhyrchu drwy gydweithrediad gan glinigwyr gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys nyrsys anadlol, gofal lliniarol, a meddygaeth anadlol. Rwy'n falch o allu cefnogi'r Canllaw hwn sydd wedi ei ddiweddarau a'i ehangu:

[Canllaw Cymru gyfan ar gyfer rheoli cleifion ag achos wedi ei gadarnhau neu achos a amheuir o Covid-19 yn y Gymuned yn ystod gaeaf 2020/21](#)

Hefyd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cydweithio i ddatblygu'r fersiwn ddiweddaraf hon. Bydd y Canllaw'n helpu clinigwyr, nyrsys, parafeddygon, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i benderfynu pa gleifion ddylai gael eu rheoli gartref gan ddarparu cyngor penodol iddynt i'w cadw'n ddiogel, a pha gleifion ddylai gael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae'r Canllaw'n cael ei gefnogi gan fframwaith moesegol a chyngor ar gynllunio gofal ymlaen llaw a darparu gofal lliniarol yn y gymuned.

Fe'i cyhoeddir ar blatfform digidol newydd, sydd hefyd yn cynnwys deunydd addysgol a fideos hyfforddi i gynorthwyo eich tîm. Ar ôl cofrestru ar y wefan, bydd defnyddwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost, pryd bynnag y bydd y Canllaw'n cael ei ddiweddarau neu os bydd deunydd addysgol newydd yn cael ei lanlwytho.